# Gweithdrefn Apeliadau Academaidd

Gweithdrefn 02: 2024 Fersiwn 1.0
Daw i rym: 1 Gorffennaf 2024

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 1 Mai 2024 | 2019 Fersiwn 1.3 | Mân newidiadau i deitlau a manylion cyswllt. Cynnwys apeliadau ynghylch lleoliadau |
| 1 Chwefror 2021 | 2019 Fersiwn 1.2 | Mân newidiadau i deitlau swyddi |
| 1 Chwefror 2021 | 2019 Fersiwn 1.1 | Mân newidiadau i derfynau amser. |
| 1 Awst 2019 | Fersiwn 2018 | Diweddariad cyffredinol. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Uned Gwella Ansawdd | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 26 Ebrill 2024. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: O dan amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall y cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Penaethiaid Coleg, Swyddogion Coleg neu Bwyllgorau Coleg yn y drefn honno, fel bo’n briodol.

# Gweithdrefn Apeliadau Academaidd

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i fyfyrwyr ar yr holl raglenni hyfforddedig a rhaglenni ymchwil ôl-radd.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Rhagarweiniad

1. Mae'r weithdrefn hon yn disgrifio sut y gall myfyriwr wneud y pethau canlynol:
    - Apelio yn erbyn y penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Arholi gan gynnwys methu mewn lleoliad.
    - Gofyn am adolygiad o ganlyniad Apêl.

    Pan fo'r materion a godir yn effeithio ar nifer o fyfyrwyr, gall y myfyrwyr hynny gyflwyno Apêl fel grŵp.

    **Nid yw'r weithdrefn hon yn galluogi myfyrwyr i gwestiynu barn academaidd yr arholwyr neu farn broffesiynol aseswyr lleoliadau.** Er enghraifft, ni all myfyrwyr gwestiynu marc a roddwyd i waith cwrs neu ofyniad ar leoliad dim ond oherwydd eu bod yn credu bod y marc yn rhy isel neu oherwydd eu bod yn credu y dylent fod wedi llwyddo yn y lleoliad.

2. Nid yw'r Weithdrefn hon yn berthnasol i benderfyniadau a wnaed o dan weithdrefnau prifysgol sydd â'u prosesau apelio eu hunain (e.e. gweithdrefnau disgyblu, neu'r weithdrefn Uniondeb Academaidd a gweithdrefnau Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer).
3. Rhaid darllen y Weithdrefn hon ar y cyd â'r canlynol:
    - Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig
    - Rheoliadau Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)
    - Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd
    - Canllawiau perthnasol rhaglenni/lleoliadau

4. Yn y Weithdrefn hon, defnyddir Bwrdd Arholi fel term cyffredinol sy'n cynnwys Byrddau Arholi ysgolion, Byrddau Arholi graddau ymchwil ôl-radd a Byrddau Arholi'r Senedd.
5. Yn y Weithdrefn hon, gall Pennaeth yr Uned Gwella Ansawdd, Cadeiryddion Byrddau Arholi a'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) ddirprwyo eu cyfrifoldebau i enwebai.
6. Yn y Weithdrefn hon, defnyddir y term 'asesiadau' ar gyfer pob math o asesiad sy'n cyfrannu at farciau modiwlau. Mae asesiadau'n cynnwys arholiadau ysgrifenedig nas gwelwyd o'r blaen, projectau gosodedig, aseiniadau gwaith cwrs, projectau ymchwil a thraethodau ymchwil.
7. Yn ystod unrhyw gam o'r Weithdrefn hon, gall staff sy'n rhan o Apêl benderfynu ei bod yn briodol ceisio datrys y pryderon drwy gyfryngu. Rhaid cael cytundeb pawb sy'n gysylltiedig â'r Apêl cyn y gellir bwrw ymlaen â chyfryngu o'r fath. Mae'r broses gyfryngu'n golygu "camu o'r neilltu" oddi wrth y Weithdrefn mewn ymgais i ddatrys

y mater mewn modd derbyniol. Caiff y Weithdrefn ei gohirio tra bydd y cyfryngu'n mynd rhagddo. Bydd cyfryngu llwyddiannus yn arwain at sefyllfa lle mae'r holl bartïon yn cytuno ar ffordd ymlaen a chedwir cofnod o'r cytundeb y daethpwyd iddo. Os na fydd y cyfryngu'n llwyddiannus, rhaid ailafael yn y Weithdrefn o'r fan lle cafodd ei 'gohirio'.

8. Rhaid i fyfyrwyr, eu cynrychiolwyr ac aelodau staff weithredu'n rhesymol a theg tuag at ei gilydd, a thrin y prosesau eu hunain â pharch. Dylai myfyrwyr sylwi bod gan y Brifysgol gyfrifoldeb i warchod ei staff rhag ymddygiad annerbyniol.

9. Mae'r Weithdrefn hon yn cynnwys dwy broses neilltuol:

    i. Apelio yn erbyn y penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Arholi (gan gynnwys methu mewn lleoliad).
    ii. Adolygu canlyniad Apêl.

    **Dim ond wedi i'r weithdrefn Apelio fod wedi ei chwblhau y caniateir Adolygiadau.**

10. Gall unrhyw fyfyriwr gyflwyno Apêl, gan gynnwys:

    - Myfyrwyr na chaniatawyd iddynt:
        - Ddychwelyd i gwblhau eu cwrs.
        - Ddychwelyd i astudio'n llawn amser ar eu rhaglenni presennol ond a gafodd ganiatâd i gofrestru fel ymgeiswyr rhan amser neu allanol.
        - Symud ymlaen at gyfnod project ymchwil rhaglen ôl-radd hyfforddedig.
        - Symud ymlaen at gyfnod project ymchwil doethuriaeth broffesiynol.
        - Gwblhau'r rhaglen ymchwil ôl-radd y maent wedi ymrestru arni.
        - Gwblhau rhaglen ymchwil ôl-radd ond a gafodd ganiatâd i gofrestru ar raglen ymchwil arall.
    - Myfyrwyr sydd wedi cwblhau eu cyfnodau astudio ac wedi cael eu harholi ar gyfer:
        - Graddau cyntaf, Graddau Sylfaen, Diplomâu a Thystysgrifau Addysg Uwch, Tystysgrifau neu Ddiplomâu Cenedlaethol Uwch (HNC/HND).
        - Gradd Meistr Hyfforddedig, Diploma ôl-radd, Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).
        - Rhaglenni ymchwil ôl-radd gan gynnwys Graddau Meistr drwy Ymchwil, MPhil, PhD a Doethuriaethau Proffesiynol.
        - PhD trwy Waith Cyhoeddedig.

## Apelio

11. Rhaid i apeliadau fod yn seiliedig ar un o'r rhesymau canlynol:

    i. Gwallau rhifyddol neu wallau ffeithiol eraill sy'n effeithio ar ganlyniad y myfyriwr.

    ii. Amgylchiadau arbennig a allai fod wedi cael effaith andwyol ar berfformiad academaidd y myfyriwr. Os na roddwyd gwybod am yr amgylchiadau i'r Bwrdd Arholi cyn iddo gyfarfod, mae'n rhaid i'r myfyriwr egluro pam na roddwyd gwybod am yr amgylchiadau. Lle byddai wedi bod yn bosibl i fyfyriwr roi gwybod i'r Bwrdd Arholi am amgylchiadau arbennig cyn iddo gyfarfod, ni ellir wedi hynny roi'r rhesymau hynny fel rheswm dros Apelio.

    iii. Diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu'r cyngor sy'n ymwneud â'r asesiadau, ac a

allai, ym marn y myfyriwr, fod wedi cael effaith niweidiol ar berfformiad academaidd neu berfformiad ar leoliad.

12. Ni ddylai myfyrwyr gyflwyno mwy nag un Apêl. Yr unig bryd y dylai myfyrwyr gyflwyno ail Apêl, yw ar ôl cwblhau eu hastudiaethau, os ydynt yn dymuno apelio yn defnyddio sail nad oedd wedi ei chynnwys yn flaenorol.

13. Os bydd myfyriwr yn apelio ar sail amgylchiadau arbennig, mae'n rhaid i'r myfyriwr ddatgan a roddwyd gwybod am yr amgylchiadau cyn y Bwrdd Arholi. Os bydd myfyriwr yn darparu tystiolaeth o amgylchiadau arbennig na roddwyd gwybod amdanynt cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi, mae'n rhaid i'r myfyriwr egluro pam na roddwyd gwybod am yr amgylchiadau hynny.

    Gall myfyrwyr nodi eu bod yn dymuno i'r Apêl neu elfennau ohoni (er enghraifft, datganiad gan dyst neu dystiolaeth feddygol) aros yn gyfrinachol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gofyn i staff sy'n gysylltiedig â'r myfyriwr wneud sylwadau ar y datganiadau a wnaed neu ymateb iddynt.

14. Rhaid cyflwyno Apêl i apeliadau@bangor.ac.uk gan ddefnyddio Ffurflen A, o fewn 20 diwrnod gwaith, pan fo hynny'n ymarferol bosibl, i'r dyddiad y mae myfyriwr yn derbyn penderfyniad gan y Bwrdd Arholi. Gellir derbyn apeliadau a gyflwynir yn hwyrach na hyn, os oes rhesymau da, yn ôl doethineb Pennaeth yr Uned Gwella Ansawdd (neu Enwebai).

15. Rhaid i'r Uned Gwella Ansawdd gydnabod derbyn yr Apêl, o fewn 5 diwrnod gwaith, lle bo hynny'n ymarferol bosibl, gan hysbysu'r myfyriwr o'r camau sy'n cael eu cymryd.

16. Rhaid i'r Uned Gwella Ansawdd ofyn i Gadeirydd y Bwrdd Arholi ystyried yr Apêl. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau yr ystyrir y cais o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo hynny'n ymarferol bosibl, i ddyddiad y yr Apêl. Caiff apêl gan fyfyriwr ar raglen Cydanrhydedd ei hanfon at Gadeirydd y Bwrdd Arholi lle cymeradwywyd canlyniad cyffredinol y myfyriwr.

17. Pan anfonir Apeliadau at Gadeirydd un o Fyrddau Arholi'r Senedd, mae'n rhaid i'r Cadeirydd benderfynu a ddylid enwebu Cadeirydd Bwrdd Arholi'r ysgol i ystyried yr Apêl. Os bydd Cadeirydd enwebedig Bwrdd Arholi'r ysgol yn penderfynu y dylid ailystyried penderfyniad y Bwrdd Arholi, fel y nodir ym mharagraff 18i, rhaid i'r achos gael ei gyfeirio at Fwrdd Arholi'r ysgol. Dim ond os na all Bwrdd Arholi'r ysgol wneud penderfyniad oherwydd bod arnynt angen gwybodaeth neu benderfyniad gan ysgol arall y dylid cyfeirio'r achos yn ôl at Gadeirydd Bwrdd Arholi'r Senedd.

18. Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi ddewis un o'r opsiynau canlynol:

    i. Trefnu i benderfyniad y Bwrdd Arholi gael ei ailystyried.

       Mae'r dull hwn o weithredu'n briodol yn un neu ragor o'r achosion canlynol:

       - Bu gwall rhifyddol neu wall ffeithiol arall.
       - Ni chafodd amgylchiadau arbennig y rhoddwyd gwybod amdanynt gan y myfyriwr cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi eu hystyried.
       - Mae'r myfyriwr, fel rhan o'r Apêl, wedi darparu tystiolaeth ychwanegol am amgylchiadau arbennig a ystyriwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Arholi.
       - Mae'r myfyriwr, fel rhan o'r Apêl, wedi darparu tystiolaeth am amgylchiadau arbennig na adroddwyd amdanynt cyn cyfarfod y Bwrdd

Arholi **ac** mae'r myfyriwr wedi egluro, er boddhad y Cadeirydd, pam na roddwyd gwybod am yr amgylchiadau hynny.

- Mae'r myfyriwr wedi darparu tystiolaeth am ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu yn y cyngor ynghylch yr asesiadau, nad oedd y Bwrdd Arholi yn ymwybodol ohonynt.

ii. Dod i'r casgliad nad oes unrhyw reswm pam y dylid ailystyried penderfyniad y Bwrdd Arholi.

Mae'r dull hwn o weithredu’n briodol yn un neu ragor o'r achosion canlynol:

- Mae'r Bwrdd Arholi eisoes wedi ailystyried canlyniadau'r myfyriwr mewn ymateb i Apêl a gyflwynwyd cyn i astudiaethau’r myfyriwr gael eu cwblhau.
- Mae'r Apêl yn cwestiynu barn academaidd yr arholwyr.
- Ni fu unrhyw wall rhifyddol neu wall ffeithiol arall.
- Mae unrhyw amgylchiadau arbennig a ddarparwyd gan y myfyriwr yn yr Apêl eisoes wedi’u hystyried.
- Mae'r myfyriwr, fel rhan o'r Apêl, wedi darparu tystiolaeth am amgylchiadau arbennig na adroddwyd amdanynt cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi **ond** nid yw'r myfyriwr wedi egluro, er boddhad y Cadeirydd, pam na roddwyd gwybod am yr amgylchiadau.
- Roedd y Bwrdd Arholi wedi ystyried tystiolaeth am ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu yn y cyngor yn ymwneud â'r asesiadau.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth o ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu yn y cyngor yn ymwneud â'r asesiadau.

19. Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi gadarnhau, gan ddefnyddio Ffurflen B, pa opsiwn a ddewiswyd, a rhaid i’r Uned Gwella Ansawdd hysbysu'r myfyriwr. Rhaid i’r Cadeirydd hysbysu’r Uned Gwella Ansawdd, o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo hynny’n ymarferol bosibl, o ddyddiad yr Apêl. Os dewiswyd opsiwn 18i, mae'n rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi hysbysu’r Uned Gwella Ansawdd o benderfyniad y Bwrdd Arholi pan ddychwelir Ffurflen B.

20. Pan roddir gwybod i’r myfyriwr beth yw penderfyniad y Bwrdd Arholi, mae'n rhaid i'r Uned Gwella Ansawdd roi gwybod i'r myfyriwr am hawl y myfyriwr i ofyn am Adolygiad ar ganlyniad yr Apêl.

### Adolygu

21. Cynhelir adolygiadau o ganlyniad Apêl gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai.

22. Dim ond ar ôl i'r cam Apêl gael ei gwblhau y gellir gwneud cais am Adolygiad. Ni dderbynnir Adolygiadau a gyflwynir gan fyfyrwyr anghymwys, neu cyn i'r cam Apêl fod wedi ei chwblhau, a chânt eu dychwelyd i'r myfyriwr.

23. Fel arfer rhaid cyflwyno ceisiadau am Adolygiad yn ysgrifenedig i apeliadau@bangor.ac.uk o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo’n ymarferol bosibl, i’r dyddiad y caiff y myfyriwr ganlyniad yr Apêl. Bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn anfon y cais at y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai.

Gellir derbyn ceisiadau am Adolygiad a gyflwynir yn hwyrach na hyn, os oes rhesymau da, yn ôl doethineb Pennaeth yr Uned Gwella Ansawdd (neu Enwebai).

24. Rhaid i’r Uned Gwella Ansawdd gydnabod derbyn y cais am Adolygiad, o fewn 5 diwrnod gwaith, lle bo hynny’n ymarferol bosibl.

25. Ystyrir Adolygiadau am y rhesymau a ganlyn yn unig:

    i. Diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd y weithdrefn i ystyried yr Apêl a lle gallai'r diffygion, yr afreoleidd-dra neu’r cyngor fod wedi effeithio ar y penderfyniad.

    ii. Amgylchiadau arbennig sy’n gysylltiedig â’r penderfyniad. Rhaid i’r myfyriwr egluro pam na wnaed y cyfryw amgylchiadau personol yn hysbys fel rhan o'r Apêl.

26. Rhaid i’r Uned Gwella Ansawdd anfon y cais am Adolygiad, a'r holl ddogfennau a ddarparwyd gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi mewn ymateb i Apêl y myfyriwr, at y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai.

27. Gall y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai ofyn am wybodaeth ychwanegol gan y myfyriwr neu gan y Bwrdd Arholi. Rhaid i’r Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai ddewis un o’r opsiynau canlynol:

    i. Cadarnhau canlyniad yr Apêl.

    Mae'r dull hwn o weithredu’n briodol yn un neu ragor o'r achosion canlynol:

    - Nid oes tystiolaeth o ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd y weithdrefn i ystyried yr Apêl.
    - Mae'r cais am Adolygiad yn cyflwyno gwybodaeth a oedd yn hysbys i’r myfyriwr, ac y gallasai ef/hi fod wedi ei chyflwyno fel rhan o'r Apêl ac nid yw'r myfyriwr wedi rhoi eglurhad boddhaol pam na ddarparwyd y wybodaeth.

    ii. Gofyn i'r Bwrdd Arholi ailystyried yr Apêl.

    Mae'r dull hwn o weithredu’n briodol yn un neu ragor o'r achosion canlynol:

    - Mae tystiolaeth o ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd y weithdrefn i ystyried yr Apêl.
    - Mae tystiolaeth i ddangos na chafodd amgylchiadau arbennig, a gyflwynwyd gan y myfyriwr fel rhan o'r Apêl, eu hystyried gan y Bwrdd Arholi wrth benderfynu ar ganlyniad y myfyriwr.
    - Mae'r cais am Adolygiad yn cyflwyno gwybodaeth a oedd yn hysbys i’r myfyriwr, ac y gallasai ef/hi fod wedi ei chyflwyno fel rhan o'r Apêl ac mae'r myfyriwr wedi rhoi eglurhad boddhaol pam na ddarparwyd y wybodaeth.

    Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi roi gwybod i'r Uned Gwella Ansawdd beth yw penderfyniad y Bwrdd Arholi o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo’n ymarferol bosibl, i'r dyddiad y cyfeiriwyd y mater at y Cadeirydd.

    iii. Cyfeirio'r cais am Adolygiad i Banel Apêl y Senedd.

Mae'r dull hwn o weithredu'n briodol os, ym marn y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai, bod cymhlethdod yr Apêl neu nodweddion eraill yr Apêl angen ystyriaeth a phenderfyniad gan Banel Apêl y Senedd.

28. Rhaid i'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai hysbysu'r Uned Gwella Ansawdd yn ysgrifenedig pa opsiwn a ddewiswyd. Rhaid i'r Uned Gwella Ansawdd hysbysu'r myfyriwr a Chadeirydd y Bwrdd Arholi pa opsiwn a ddewiswyd. Os dewiswyd opsiwn 27i, mae'n rhaid i'r Uned Gwella Ansawdd hysbysu'r myfyriwr o hawl y myfyriwr i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol fel y disgrifir ym mharagraff **Error! Reference source not found.**. Os dewiswyd opsiwn 27ii, mae'n rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi hysbysu'r Uned Gwella Ansawdd o benderfyniad y Bwrdd Arholi o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo'n ymarferol bosibl, i'r dyddiad y cyfeiriwyd yr Apêl at y Bwrdd Arholi. Yna rhaid i'r Uned Gwella Ansawdd hysbysu'r myfyriwr o'r penderfyniad ac o hawl y myfyriwr i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol fel y disgrifir ym mharagraff **Error! Reference source not found.**. Os dewiswyd opsiwn 27iii mae'n rhaid i'r Uned Gwella Ansawdd hysbysu'r myfyriwr bod yr Apêl wedi ei chyfeirio at Banel Apêl y Senedd a bod rhaid iddynt gynnull cyfarfod o'r Panel i ystyried yr Apêl.

## Panel Apêl y Senedd

29. Rhaid cynnull Panel Apêl y Senedd, fel y caiff ei ddiffinio yn Rheoliadau'r Senedd a'i His-bwyllgorau, o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad y mae'r Uned Gwella Ansawdd yn derbyn penderfyniad y Dirprwy Is-ganghellor o dan opsiwn 27iii. Rhaid cynnull y Panel ac ni ddylid ystyried yr achos ar sail cyfathrebu electronig yn unig.

30. Mae'n rhaid hysbysu myfyrwyr ymlaen llaw o amser, dyddiad a chyfansoddiad y Panel Apêl a rhaid rhoi cyfle iddynt ymddangos ger bron y Panel. Caiff myfyrwyr fynd ag unigolyn o'u dewis eu hunain gyda nhw i gyfarfod y Bwrdd, a gall yr unigolyn hwnnw siarad neu gynnal yr achos ar eu rhan. Gall yr unigolyn sy'n mynd gyda'r myfyriwr fod yn aelod o'r staff academaidd, llesiannol neu ymgynghorol, neu'n fyfyriwr neu'n swyddog o Undeb y Myfyrwyr. Caniateir i fyfyrwyr fod yn bresennol drwy gyfrwng fideo gynadledda, ond dylid rhoi prawf ymlaen llaw ar gryfder y cysylltiad a dylai cyswllt llinell ffôn ddaearol fod ar gael wrth gefn.

31. Rhaid i'r ysgol(ion) cysylltiedig anfon aelod(au) o staff i fod yn bresennol yn y gwrandawiad, ac ar wahoddiad Cadeirydd y Panel Apêl, i gyfrannu at y gwrandawiad.

32. Rhaid i'r Panel Apêl seilio ei benderfyniad ar y dystiolaeth a gyflwynir yng nghais y myfyriwr am Adolygiad, ar yr ymateb i Apêl y myfyriwr, ac ar unrhyw dystiolaeth bellach a gyflwynir gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr).

33. Rhaid i'r Panel Apêl ddewis un o'r opsiynau canlynol:

    i. Gwrthod y cais am Adolygiad a dod i'r casgliad na chymerir unrhyw gamau pellach.

    ii. Gofyn i'r Bwrdd Arholi ailystyried ei benderfyniad.

    Wrth ystyried ceisiadau gan fyfyrwyr ymchwil ôl-radd, gellir dewis un o'r opsiynau canlynol:

- Gofyn am i Fwrdd Arholi cwbl newydd ailystyried penderfyniad y Bwrdd gwreiddiol. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Arholi newydd gynnal arholiad *viva voce* os oes angen dan y rheoliadau ar gyfer y rhaglen ymchwil ôl-radd benodol.
- Caniatáu i'r myfyriwr ail-ysgrifennu’r traethawd ymchwil a’i ail-gyflwyno i’w ail-arholi gan y Bwrdd Arholi gwreiddiol o fewn terfyn amser penodedig a heb dalu ffi ailgyflwyno.
- Caniatáu i'r myfyriwr ail-ysgrifennu’r traethawd ymchwil a’i ail-gyflwyno i’w ail-arholi gan Fwrdd Arholi cwbl newydd, o fewn terfyn amser penodedig a heb dalu ffi ailgyflwyno.

Mewn achosion eithriadol yn unig, gall y Panel Apêl bennu cyfansoddiad y Bwrdd Arholi.

Lle cyfeirir yr achos yn ôl at y Bwrdd Arholi, caiff y Panel Apêl, lle bo hynny’n briodol yn ôl amgylchiadau’r achos, ofyn am i swyddog o’r Brifysgol fod yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Arholi fel arsylwr.

34. Rhaid i'r myfyriwr a Chadeirydd y Bwrdd Arholi gael eu hysbysu o benderfyniad y Panel Apêl o fewn 5 diwrnod gwaith i gyfarfod y Panel.

35. Os dewisir opsiwn 33i, bydd penderfyniad y Bwrdd Apêl yn derfynol. Rhaid i'r Uned Gwella Ansawdd hysbysu’r myfyriwr o’r penderfyniad ac o hawl y myfyriwr i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol fel y disgrifir ym mharagraff **Error! Reference source not found.**.

36. Os dewisir opsiwn 33ii, rhaid anfon adroddiad llawn, yn cynnwys argymhellion neu gyngor lle bo'n briodol yn ôl amgylchiadau'r achos - gan gynnwys yr holl ddogfennaeth ategol - at Gadeirydd y Bwrdd Arholi a rhaid i'r adroddiad hwnnw gael ei ystyried gan y Bwrdd Arholi. Rhaid i benderfyniad y Bwrdd Arholi gael ei anfon gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi i'r Uned Gwella Ansawdd o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo’n ymarferol bosibl, i ddyddiad y Panel Apêl. Bydd penderfyniad y Bwrdd Arholi ynglŷn ag addasu marciau sydd eisoes wedi eu dyfarnu, yn derfynol. Ar ôl derbyn penderfyniad y Bwrdd Arholi, gall yr Uned Gwella Ansawdd, mewn achosion eithriadol yn unig, gyfeirio’r achos at Gadeirydd y Bwrdd Apêl i adolygu’r gweithdrefnau a ddilynwyd. Gall Cadeirydd y Panel Apêl benderfynu a ddylid cyfeirio'r achos yn ôl i'r Bwrdd Arholi i’w ystyried ymhellach. Rhaid i'r Uned Gwella Ansawdd hysbysu’r apelydd yn ysgrifenedig o benderfyniad y Bwrdd Arholi, ac am y rhesymau dros wneud y penderfyniad, a hawl y myfyriwr i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol fel y disgrifir ym mharagraff **Error! Reference source not found.**.

37. Efallai y bydd ac efallai na fydd penderfyniad Bwrdd Arholi i addasu marciau sydd eisoes wedi eu dyfarnu yn newid canlyniad cyffredinol yr apelydd. Os caiff y canlyniad cyffredinol ei newid, mae'n rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi hysbysu'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr fel y gellir, os oes angen, roi tystysgrif arall a/neu drawsgrifiad o'r canlyniadau i'r myfyriwr.

38. Os bydd myfyriwr yn dal yn anfodlon ar ôl i’r weithdrefn gael ei chwblhau, a bod llythyr Cwblhau Gweithdrefnau wedi ei anfon gan y Brifysgol, gall y myfyriwr gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol. Ceir manylion am y weithdrefn hon ar wefan Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol neu gan yr Uned Gwella Ansawdd.

Mae gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch gynllun annibynnol i adolygu cwynion gan fyfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwn. Os ydych yn anfodlon ar y canlyniad a gawsoch gan Brifysgol Bangor, efallai y gallwch ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch adolygu eich achos. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr hyn y gall a'r hyn na all edrych arno a'r hyn y gall ei wneud i unioni pethau, yma: https://www.oiahe.org.uk/students.

Fel rheol rhaid i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn cwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr atoch o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl i chi gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nad oes unrhyw gamau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch yn awtomatig. Os caiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau neu hyd yn oed ei chadarnhau'n rhannol cewch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunwch. Cewch ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y gallech ddisgwyl derbyn llythyr o’r fath, yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters.

I ddod â chwyn gerbron Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol, rhaid i chi lenwi Ffurflen Cwynion Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol a’i chyflwyno cyn pen 12 mis o ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel arfer), ac fel rheol bydd yn rhaid i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol.

| **Ffurflen A. Apêl** | | PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY |
|---|---|---|
| Enw: | | |
| Rhif Adnabod Myfyriwr: | | |
| Cwrs | | |
| Cyfeiriad gohebu:<br><br><br><br>E-bost: | | |

Darllenwch adran Apêl y Weithdrefn Apelio cyn cyflwyno'r ffurflen hon. Ni ddylid cyflwyno'r ffurflen hon oni bai eich bod wedi cwblhau eich astudiaethau a'u cyflwyno. **Ni chewch gyflwyno Apêl sy'n cwestiynu barn academaidd yr arholwyr neu farn broffesiynol aseswyr ar leoliad.**

Rhaid i chi lenwi o leiaf un o'r adrannau canlynol.

**Adran 1**

| |
|---|
| Rwy'n apelio oherwydd gwallau rhifyddol neu wallau ffeithiol eraill a effeithiodd ar fy nghanlyniad.<br><br>Rhaid i'r adran hon gynnwys rhestr o'r canlyniadau yr hoffech iddynt gael eu hystyried a rhaid i chi egluro pam eich bod yn credu y gallai gwallau rhifyddol neu wallau eraill fod wedi effeithio ar y canlyniadau. |
| <br><br><br><br>(Parhewch gyda'r Adran hon ar ddalen ar wahân, os oes angen.) |

**Adran 2**

Rwy'n apelio oherwydd amgylchiadau arbennig a allai fod wedi cael effaith andwyol ar fy mherfformiad academaidd.

Rhaid i'r adran hon gynnwys manylion am yr amgylchiadau personol gyda thystiolaeth ategol, lle bo modd (e.e. llythyr meddyg). Mae’n rhaid i chi hefyd egluro sut y gwnaethoch roi gwybod i'r ysgol am yr amgylchiadau. Os yw Adran 2.2 wedi'i llenwi, mae'n rhaid i chi egluro pam na wnaethoch roi gwybod am yr amgylchiadau personol cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi.

**Adran 2.1**
Amgylchiadau personol y rhoddwyd gwybod amdanynt cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi.

**Adran 2.2**
Amgylchiadau personol na roddwyd gwybod amdanynt cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi.

(Parhewch gyda'r Adran hon ar ddalen ar wahân, os oes angen.)

**Adran 3**

| |
|---|
| Rwy'n apelio oherwydd diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau, neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig, neu yn y cyngor yn ymwneud â'r asesiadau, a allai fod wedi cael effaith niweidiol ar fy mherfformiad academaidd.<br><br>Mae'n rhaid i'r adran hon gynnwys manylion am y diffygion neu afreoleidd-dra gyda thystiolaeth ategol (e.e. copïau o lythyrau neu negeseuon e-bost a anfonwyd atoch ynglŷn â threfniadau'r asesiadau). |
| |

(Parhewch gyda'r Adran hon ar ddalen ar wahân, os oes angen.)

**Datganiad**

Dyma ddatgan fy mod wedi darllen Gweithdrefn Apeliadau Academaidd y Brifysgol a bod unrhyw wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon, ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol ynghlwm, os oes, yn ddatganiad cywir o'r ffeithiau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

.................................................... ....................................

Llofnod Dyddiad

Rhaid anfon y ffurflen hon:

Mewn e-bost at apeliadau@bangor.ac.uk

Neu at:

Apeliadau Academaidd
dan ofal Gweinyddwr Ymddygiad, Cwynion ac Apeliadau Myfyrwyr
Uned Gwella Ansawdd
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG

**Ffurflen B. Apêl Academaidd**
**Ymateb gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi (neu enwebai)**

| | |
|---|---|
| Enw'r myfyriwr | |
| Rhif Adnabod Myfyriwr: | |
| Cwrs | |
| Enw'r sawl sy'n llenwi'r ffurflen hon:<br><br>Llofnod:<br><br>Dyddiad: | |

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Dewiswch naill ai opsiwn 1 neu opsiwn 2 a thicio un neu fwy o'r blychau i ddangos pam y dewiswyd yr opsiwn. Gellir cynnwys eglurhad pellach a thystiolaeth atodol gyda'r ffurflen hon.

**Opsiwn 1:** Bydd y Bwrdd Arholi yn ailystyried canlyniad y myfyriwr.

| | |
|---|---|
| Gwnaed gwall rhifyddol neu wall ffeithiol arall. | |
| Ni chafodd amgylchiadau arbennig y rhoddwyd gwybod amdanynt gan y myfyriwr cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi eu hystyried. | |
| Roedd y myfyriwr wedi darparu tystiolaeth ychwanegol am amgylchiadau arbennig a ystyriwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Arholi. | |
| Roedd y myfyriwr wedi darparu tystiolaeth am amgylchiadau arbennig na adroddwyd amdanynt cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi ac mae'r myfyriwr wedi egluro, er boddhad y Cadeirydd, pam na roddwyd gwybod am yr amgylchiadau. | |
| Mae'r myfyriwr wedi darparu tystiolaeth am ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu yn y cyngor ynghylch yr asesiadau, nad oedd y Bwrdd Arholi yn ymwybodol ohonynt. | |
| Rheswm arall (Rhowch fanylion) | |

| |
|---|
| (Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen.) |
| Penderfyniad y Bwrdd Arholi: |

| **Opsiwn 2:** Nid oes unrhyw reswm pam y dylid ailystyried penderfyniad y Bwrdd Arholi. | |
|---|---|
| Mae'r Bwrdd Arholi eisoes wedi ailystyried canlyniadau'r myfyriwr mewn ymateb i Apêl a gyflwynwyd cyn i astudiaethau'r myfyriwr gael eu cwblhau. | |

| | |
|---|---|
| Mae'r Apêl yn cwestiynu barn academaidd yr arholwyr. | |

| | |
|---|---|
| Ni fu unrhyw wall rhifyddol neu wall ffeithiol arall. | |

| | |
|---|---|
| Mae unrhyw amgylchiadau arbennig a ddarparwyd gan y myfyriwr yn yr Apêl eisoes wedi'u hystyried. | |

| | |
|---|---|
| Roedd y myfyriwr wedi darparu tystiolaeth am amgylchiadau arbennig na adroddwyd cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi ond nid yw'r myfyriwr wedi egluro, er boddhad y Cadeirydd, pam na roddwyd gwybod am yr amgylchiadau. | |

| | |
|---|---|
| Roedd y Bwrdd Arholi wedi ystyried tystiolaeth am ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu yn y cyngor yn ymwneud â'r asesiadau. | |

| | |
|---|---|
| Nid oes unrhyw dystiolaeth o ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu yn y cyngor yn ymwneud â'r asesiadau. | |

| Rheswm arall (Rhowch fanylion) | |
|---|---|
| | |
| Penderfyniad y Bwrdd Arholi: | |

| Ymatebwch i bob mater ychwanegol y gallai'r apelydd fod wedi eu codi yn ei Apêl. |
|---|
| Ymateb yr ysgol: |

Rhaid anfon y ffurflen hon:

Mewn e-bost at apeliadau@bangor.ac.uk

Neu at:

Apeliadau Academaidd
dan ofal Gweinyddwr Ymddygiad, Cwynion ac Apeliadau Myfyrwyr
Uned Gwella Ansawdd
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG

| **Ffurflen C. Adolygiad** |
| --- |

| Enw: | | 39. PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY |
|---|---|---|
| Rhif Adnabod Myfyriwr: | | |
| Cwrs | | |
| Cyfeiriad gohebu:<br><br>E-bost: | | |

Darllenwch adran Apêl y Weithdrefn Apelio cyn cyflwyno'r ffurflen hon. Dim ond os ydych wedi cwblhau eich astudiaethau ac wedi cyflwyno Cais am Gadarnhad y dylid cyflwyno'r ffurflen hon. **Ni chewch gyflwyno apêl sy'n cwestiynu barn academaidd yr arholwyr neu farn broffesiynol aseswyr ar leoliad.**

Rhaid i chi lenwi o leiaf un o'r adrannau canlynol.

**Adran 1**

| Rwy'n apelio oherwydd gwallau rhifyddol neu wallau ffeithiol eraill a effeithiodd ar fy nghanlyniad.<br><br>Rhaid i'r adran hon gynnwys rhestr o'r canlyniadau yr hoffech iddynt gael eu hystyried a rhaid i chi egluro pam eich bod yn credu y gallai gwallau rhifyddol neu wallau eraill fod wedi effeithio ar y canlyniadau. |
|---|
| (Parhewch gyda'r Adran hon ar ddalen ar wahân, os oes angen.) |

**Adran 2**

Rwy'n apelio oherwydd amgylchiadau personol eithriadol a allai fod wedi cael effaith niweidiol ar fy mherfformiad academaidd.

Rhaid i'r adran hon gynnwys manylion am yr amgylchiadau personol gyda thystiolaeth ategol, lle bo modd (e.e. llythyr meddyg). Mae'n rhaid i chi hefyd egluro sut y gwnaethoch roi gwybod i'r ysgol am yr amgylchiadau. Os yw Adran 2.2 wedi'i llenwi, mae'n rhaid i chi egluro pam na wnaethoch roi gwybod am yr amgylchiadau personol cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi.

**Adran 2.1**
Amgylchiadau personol y rhoddwyd gwybod amdanynt cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi.

**Adran 2.2**
Amgylchiadau personol na roddwyd gwybod amdanynt cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi.

(Parhewch gyda'r Adran hon ar ddalen ar wahân, os oes angen.)

**Adran 3**

| |
|---|
| Rwy'n apelio oherwydd diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr asesiadau, neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig, neu yn y cyngor yn ymwneud â'r asesiadau, a allai fod wedi cael effaith niweidiol ar fy mherfformiad academaidd.<br><br>Mae'n rhaid i'r adran hon gynnwys manylion am y diffygion neu afreoleidd-dra gyda thystiolaeth ategol (e.e. copïau o lythyrau neu negeseuon e-bost a anfonwyd atoch ynglŷn â threfniadau'r asesiadau). |
| |

(Parhewch gyda'r Adran hon ar ddalen ar wahân, os oes angen.)

**Datganiad**

Dyma ddatgan fy mod wedi darllen Gweithdrefn Apeliadau Academaidd y Brifysgol a bod unrhyw wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon, ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol ynghlwm, os oes, yn ddatganiad cywir o'r ffeithiau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

.............................................................. ..............................

Llofnod Dyddiad

Rhaid anfon y ffurflen hon:

Trwy apeliadau@bangor.ac.uk

Neu at:

Apeliadau Academaidd
dan ofal Gweinyddwr Ymddygiad, Cwynion ac Apeliadau Myfyrwyr
Uned Gwella Ansawdd
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG